# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 18 Hydref 2012** |
| Amser: | **09:30 - 14:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_18_10_2012&t=0&l=cy
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400002_18_10_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:
Craffu ar y gyllideb

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Mark Drakeford**<br>**Russell George**<br>**Vaughan Gething**<br>**Llyr Huws Gruffydd**<br>**William Powell**<br>**David Rees**<br>**Antoinette Sandbach** |
| Tystion: | **Alun Davies, Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd**<br>**John Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**<br>**Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol**<br>**Rob Hunter, Llywodraeth Cymru**<br>**Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru**<br>**Andrew Slade, Llywodraeth Cymru**<br>**Gill Bell, Y Gymdeithas Cadwraeth Forol**<br>**Dan Crook, WWF Cymru**<br>**Gareth Cunningham, RSPB Cymru**<br>**Beth Henshall, Ymddiriedolaethau Natur Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Alun Davidson (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Nia Seaton (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Keith Davies a Julie James ar gyfer y cyfarfod cyfan a gan William Powell a David Rees ar gyfer y sesiwn prynhawn. Roedd Ken Skates yn dirprwyo ar ran Keith Davies a Mark Drakeford yn dirprwyo ar ran David Rees.

## 2. Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014 - Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd

2.1 Bu'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd a'i swyddogion yn ateb cwestiynau gan aelodau o'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu dadansoddiad o'r cam gorfodi mewn perthynas â'r gyfran o'r gyllideb a gaiff ei gwario ar erlyn.

## 3. Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014 - Craffu ar waith Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

3.1 Bu Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy a'i swyddogion yn ateb cwestiynau gan aelodau o'r Pwyllgor.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r ffigur 'llyfr gwyrdd' ar gyfer materion systemau technoleg gwybodaeth y bydd yr un corff amgylcheddol newydd yn eu hetifeddu.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5.

## 5. Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014 - trafod y dystiolaeth

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a ddaeth i law a pha faterion yr oedd am ddwyn i sylw'r Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad.

5.2 Cafodd y Pwyllgor egwyl rhwng 12.00 ac 13.00.

## 6. Ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru - Tystiolaeth lafar gan Cyswllt Amgylchedd Cymru

6.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i'r goblygiadau i Gymru yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol.

6.2 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ar y polisi morol yng Nghymru.

6.3 Cytunodd Dan Crook i rannu gyda'r Pwyllgor yr adroddiad ar yr astudiaeth a gomisiwynwyd gan y WWF ar gyd-leoli parthau cadwraeth morol datblygiadau ynni adnewyddadwy.

## 7. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar 24 Hydref

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar 24 Hydref.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.